# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 9

TERFYNU ETC. CONTRACTAU MEDDIANNAETH

## PENNOD 12

HAWLIADAU MEDDIANT: PWERAU'R LLYS
MEWN PERTHYNAS Â SEILIAU ABSOLIWT

(NID YW'R BENNOD HON OND YN GYMWYS I GONTRACTAU SAFONOL)

*Seiliau meddiant absoliwt mewn perthynas â chontractau safonol*

### 215 Seiliau rhoi hysbysiad

(1) Mae is-adran (2) yn gymwys os—

(a) yw'r landlord o dan gontract safonol yn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 170 neu 191 (hysbysiad deiliad y contract) neu adran 186 (hysbysiad y landlord mewn cysylltiad â diwedd cyfnod penodol), a

(b) yw'r llys yn fodlon bod y sail wedi ei phrofi.

(2) Rhaid i'r llys wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd (yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

(3) Mae is-adran (4) yn gymwys os—

(a) yw'r landlord o dan gontract safonol yn gwneud hawliad meddiant ar y sail yn adran 178 neu 199 (hysbysiad y landlord), a

(b) yw'r llys yn fodlon bod y sail wedi ei phrofi.

(4) Rhaid i'r llys wneud gorchymyn adennill meddiant o'r annedd oni bai bod adran 217 (troi allan dialgar) yn gymwys (ac yn ddarostyngedig i unrhyw amddiffyniad sydd ar gael ar sail hawliau Confensiwn deiliad y contract).

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 215 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details) View outstanding changes*

(5) Mae'r adran hon yn ddarostyngedig i adran 218 (adolygiad gan y llys sirol).

**Addasiadau (ddim yn newid testun)**

**C1** Rhn. 9 wedi ei eithrio (1.12.2022) gan 2004 c. 34, a. 33(c) (fel y mewnosodwyd gan Rheoliadau Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (Diwygiadau Canlyniadol) 2022 (O.S. 2022/1166), rhlau. 1(1), **28(2)(c)**)

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 215 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 257(2)**

**I2** A. 215 mewn grym ar 1.12.2022 gan O.S. 2022/906, **ergl. 2**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016, Adran 215 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 11 Awst 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.
View outstanding changes

**Changes and effects yet to be applied to :**

– specified provision(s) savings for amendments by 2018 anaw 1, s. 6, Sch. 6 by S.I. 2019/110 reg. 5

**Changes and effects yet to be applied to the whole Act associated Parts and Chapters:**
Whole provisions yet to be inserted into this Act (including any effects on those provisions):

– s. 20(3)(ma) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(2)
– s. 135(2)(ia) inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(3)
– s. 186A-186C inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 4(1)
– s. 198A inserted by 2019 anaw 2 Sch. 3 para. 5